# Cyngor Cymuned Tudweiliog

Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB.

Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog a gynhaliwyd ar Zoom nos Lun Medi 13eg 2021

Presennol: Henry Hughes, Siân Parri, Gareth Jones, Alan Hughes, John Davies, Alyn Williams

Ymddiheuriadau: Humphrey Williams, Terry Huws

1. Cadeiriwyd gan Alan Hughes ac estynnodd groeso i bawb. Gan fod achosion Covid yn uchel yn yr ardal pebderfynwyd cynal cyfarfod ar zoom.
2. Materion yn codi o'r cofnodion:
   a. **Llainfatw –** Adroddodd Siân Parri nad oedd diweddariad ond bod cyflwr yr adeilad yn dirywio. Penderfynwyd y byddai'n dda o beth i'r clerc anfon e-bost at yr adran Gynllunio i ddatgan pryder am gyflwr bregus yr adeilad - byddai gwynebu tywydd gwael gaeaf arall yn golygu y gallai'r waliau ddymchwel, gan ofyn i'r adran am arweiniad o beth ellir ei wneud i'w warchod.
   b. **Porthysgaden –** Doedd dim i'w adrodd yn ôl
   c. **Diweddariad o hengeisiadau cynllunio –** Harbour Way: cafwyd ar ddeall fod yr Adran Gorfodaeth wedi rhoi rhybudd i'r tenant i gyflwyno cais cynllunio newid defnydd.
   ch. **Problem parcio ger Towyn Tudweiliog** - Ni chafwyd ymateb.
   d. **Bariau 'popup'** – Cyflwynodd y Clerc bryder y Cyngor Cymuned i'r Cynghorydd Sir Seimon Glyn.
   dd. **Alcohol yn cael ei werthu yn Tyddyn Isaf** – Gan nad oedd tystiolaeth I'r pryder, penderfynwyd peidio ymchwilio mwy i'r mater ar hyn o bryd.
   e. **Toiledau Tudweiliog** – Cafodd y Clerc wybod fod trafodaeth yn cymeryd lle rhwng Cefnamwlch a'r Cyngor Sir. Yn dilyn diddordeb gan berson lleol yn y toiledau, deallir fod Cefnamwlch wedi rhoi

cynnig i'r Cyngor Sir i drosglwyddo'r toiledau yn ôl i gyfrifoldeb y stad.
Penderfynwyd aros a disgwyl i weld beth fydd datblygiad y drafodaeth.

3. Gohebiaeth:

a. **Arwydd 'Ysgol' Pentref Tudweiliog-** Eglurodd y Clerc ei bod wedi derbyn pryder gan berson lleol ar ddechrau mis Awst, fod yr arwydd 'ysgol' sydd rhwng y Capel a'r Lion wedi ei orchuddio gan dyfiant. Ysgrifennodd y Clerc i'r Adran Priffyrdd, ac fe dorrwyd y tyfiant yn syth gan berchennog y gwrych. Gofynnodd y Clerc i'r Adran ystyried symud lleoliad yr arwydd i safle ple nad oes tyfiant- hyd yma ni chafwyd ymateb.

b. **Ardal Ni 2035** – Derbyniwyd gwybodaeth am brosiect 'Ardal Ni 2035' gan Alys Lloyd Jones Swyddog Cefnogi Cymunedau. Bydd y Cynghorwyr yn ymateb yn ôl i'r Clerc ar e-bost yn dilyn cyfle i ddarllen mwy am y prosiect.

c. **Zurich –** Rhoddwyd caniatad i'r Clerc dalu £390.63

ch. **ICO** – Rhoddwd caniatad i'r Clerc dalu £40.00

d. **Cyngor Gwynedd** – Rhoddwyd caniatad i'r Clerc dalu £174.00 (archwyliad mewnol)

dd.**Ymddiswyddiad Seimon Glyn –** Derbynwyd e-bost gan y Cynghorydd Seimon Glyn yn datgan ei ddymuniad I ymddiswyddo o fod yn aelod o'r Cyngor Cymuned. Diolchodd y Cadeirydd i Seimon am ei holl waith dros y blynyddoedd a'i barodrwydd i arwain a chynghori pan fo'r gofyn.

e.**Cais Cynllunio C21/0792/46/LL –** Hendre Uchaf, Edern -Dim Sylw

f.**Cais Cynllunio C21/0785/46/LL –** Bryn Odol, Tudweiliog-Dim Sylw

**4. Unrhyw fater arall:**

a. Gan fod dau Gynghorydd wedi methu sawl cyfarfod dros y flwyddyn ddiwethaf, gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Medwyn a Richard.

b.Cafwyd ar ddeall fod twll drwg yn y ffordd rhwng Plas Morfa a Tŷ Cam Llangwnnadl, bydd y Clerc y cysylltu a'r adran Priffyrdd.

c. Cafwyd ar ddeall fod y ffordd ger Tan Fron Garnfadryn angen ei farbio, gan fod bysus a thrafnidiaeth yn cwyno fod tyfiant yn creu problem i gerbydau. Bydd y Clerc yn anfon at yr adran Priffyrdd.

ch. Derbynwyd pryder fod y cwt 'edrych allan' ym Mhorth Cychod Porthysgaden wedi cael ei falurio – bydd y Clerc yn anfon at Carter Jonas I'w gwybyddu, yn ogystal ac anfon at AHNE Llyn gan ei fod yn adeilad hanesyddol.

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Lun 11ed Hydref 2021
am 7.30yh